# Trefn ar gyfer Comisiynu Gweinidogaethau Lleyg

Ffurf A

**Gweinidogaethau Comisiynedig: Arweinydd Addoliad, Cynorthwy-ydd Bugeiliol, Catecist.**

*Gellir arfer y litwrgi hwn oddi mewn i wasanaeth yr Ewcharist neu mewn gwasanaeth heb Ewcharist. Gellir hefyd ei arfer ar ei ben ei hun, yn wasanaeth anffurfiol, drwy gynnwys darlleniadau o'r Beibl, emynau, ymbiliau a datganiad o'r Ffydd. Arweinydd y Tîm fydd yn arwain litwrgi'r Comisiynu.*

Dyma'r dydd y gweithredodd yr Arglwydd; hwn ydyw'r dydd a wnaeth yr Arglwydd ac a'i rhoddodd i ni.

Pawb **I Dduw y bo'r diolch.**

Mae Duw wedi ein galw ni yma, i fod mewn cymundeb â'n gilydd ac i estyn cyfeillgarwch y naill i'r llall.

Pawb **Mae Duw gyda ni bob amser.**

Pan fyddwn ni'n rhannu ac yn sgwrsio, pan fyddwn ni'n gwasanaethu ac yn gweddïo:

Pawb **Portha ni a chynnal ni â Bara a Gair y Bywyd.**

Wrth inni barhau i fod yn ddisgyblion, wrth inni geisio dy ddilyn di mewn ffydd:

Pawb **Agor ein calonnau fel y rhoddwn yn helaethach ohonom ni ein hunain, a rhannu'r doniau a ddaeth ohonot ti.**

Dduw trugarog,
yr wyt yn ein galw i roi lle yn ein calonnau i bawb o'th bobl.
Dyfnha ein ffydd,
a gwna ni'n fwy effro i'r byd
lle y'n gelwaist ni i weinidogaethu.
Drwy dy Ysbryd Glân
boed i bawb yr wyt yn eu galw
rannu dy efengyl o gariad a thangnefedd,
gan ddibynnu, nid arnom ni ein hunain yn unig,
ond ar Iesu, ein Cyfaill, ein Cydymaith a'n Cwmni.
yn awr ac am byth.

Pawb **Amen.**

**Y Comisiynu**

*Mae’r rhai sydd i’w Comisiynu yn sefyll o flaen y gynulleidfa*

Gweddïwn dros y rhai sydd i’w Comisiynu i weinidogaeth ....................

Y mae amrywiaeth o ddoniau’r Ysbryd,
ac fe roddwyd i bob un, ar wahân, ei ddoniau unigryw
i’w rhannu ag eraill yn enw Duw, ac i’w wasanaethu Ef.

Pawb **Boed i Dduw fod gyda chwi yn y weinidogaeth y cewch eich comisiynu iddi, a Duw a fo’n gynorthwy inni ddirnad ein galwedigaeth a’n gweinidogaeth ni ein hunain.**

*Distawrwydd*

*Mae’r rhai sydd i’w Comisiynu yn rhoi’r atebion canlynol*

A ydych chi’n credu bod Duw wedi eich galw i’r weinidogaeth hon?
**Yr wyf yn credu bod Duw wedi fy ngalw.**

A fyddwch chi’n ffyddlon i Dduw yn eich gweddïo, yn eich astudiaeth o air Duw, yn eich Cymuno, ac ym mhob rhan o’ch bywyd?
**Byddaf, a Duw yn fy nghynorthwyo, a’r gynulleidfa hon yn fy nghynnal.**

[A fyddwch chi’n ffyddlon i Dduw drwy ymgymryd â hyfforddiant pellach?
**Byddaf, a Duw yn fy nghynorthwyo.]**

A fyddwch chi’n ffyddlon i Dduw drwy roi ohonoch chi eich hunan i’r weinidogaeth hon?
**Byddaf, a Duw yn fy nghynorthwyo, a’r gynulleidfa hon yn fy nghynnal.**

**Dduw cariadlon,**
**fe’m gelwaist i fod yn rhan o’r weinidogaeth yn dy eglwys,**
**oddi mewn i’r Ardal *Weinidogaethol/Genhadol* hon.**
**Pan glywaf dy Air yn llefaru yn fy nghalon**
**dyro imi’r awydd i rannu’r Gair hwnnw ag eraill,**
**drwy’r weinidogaeth y’m gelwir i wasanaethu ynddi. Amen.**

*Wrth y gynulleidfa*

Bobl Dduw, a wnewch chi weddïo dros y rhai sydd i’w comisiynu, a’u cefnogi hwy?
**Gwnawn, a Duw yn ein cynorthwyo.**

*Wrth y rhai a Gomisiynir:*

Ar awdurdod yr Esgob, yr wyf yn eich comisiynu chwi yn awr i weinidogaeth….
I Duw y bo'r diolch.
**Amen. I Dduw y bo'r diolch.**

*Mae Arweinydd y Tîm yn croesawu'r rhai a gomisiynwyd drwy ysgwyd eu llaw; gellir hefyd gyflwyno tystysgrif gomisiynu os dymunir.*

Crist, na ddaeth i'n plith i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu,

a fyddo yn eich ysbrydoli pan fyddoch yn llefaru a gweithredu.

Pawb **Amen**

**Gweddi o Ymrwymiad**

*Wrth y gynulleidfa a'r rhai a gomisiynwyd:*

Drwy ffydd yn Iesu Grist fe'n gelwir i wasanaethu Duw:

Pawb **Dduw cariadlon,**

**ohonot ti y mae pob bendith yn llifo.**

**Rhoddwn ddiolch a mawl i ti**

**am bopeth y'n gelwaist ni i fod.**

**Dwg allan ohonom ein doniau niferus ac amrywiol**

**fel, mewn ffydd ac ymddiriedaeth,**

**y gellir eu hoffrymu,**

**yn enw ac i wasanaeth Iesu Grist**

**Amen.**

***Awgrymiadau Pellach***

*Colect a Gweddi Ôl-Gymun:*

351: Y Colect am Ddyddiau'r Categorïau  - Dros Weinidogaeth pob Cristion

362: Y Colect dros Waith Cenhadol yr Eglwys

369: Y Colect am Arweiniad yr Ysbryd Glân

*Darlleniadau o'r Beibl*

Numeri 27: 15-23

Eseia 55: 8-11

Jeremeia 29: 11-14

Salm 63: 1-8

Salm 84

Salm 116

Rhufeiniaid 12: 1-8

Effesiaid 4: 11-16

Colosiaid 3: 12-17

Mathew 16: 24-27

Luc 10: 1-9

Ioan 15: 12-17

*Y Rhaglith – Y Drefn ar Gyfer y Cymun Bendigaid 2004*

18: Yr Ysbryd Glân

31: Iacháu

34: Cenhadaeth